

# SL(6)195 – [Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol \(Diwygio\) \(Cymru\) 2022](#)

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir i ganiatáu i brawf titr gwrthgorff arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sail resymegol dros ei pholisi:

*"Bydd caniatáu defnyddio prawf ychwanegol yn cyflymu'n sylweddol y broses o brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru, ar adeg pan fydd y system yn ymdrin ag ôl-groniad sylweddol oherwydd bod pobl sy'n dianc o'r Wcráin yn dod â'u hanifeiliaid anwes i mewn. Bydd hyn yn lleihau'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantín ac yn galluogi pobl i gael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth hefyd ddiogelu bioddiogelwch Prydain Fawr."*

Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 1 Ionawr 2022.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi (i) ei diddymu, neu (ii) yn ystod toriad o dros bedwar diwrnod) ar ôl y dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym) wedi'i thorri, a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Lesley



Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn [llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Ebrill 2022](#).

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

*"Mae wedi dod yn angenrheidiol peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y niferoedd uchel o anifeiliaid sy'n cyrraedd mewn cyfnod byr, a fydd yn fuan yn fwy na'r nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael mewn mannau cwarantin.*

*Bydd defnyddio'r prawf cyflymach yn lleihau'r cyfnod mae angen i anifeiliaid anwes aros mewn cwarantin, a'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantin, gan alluogi ffoaduriaid i ddod i mewn i Gymru yn gyflymach, a chael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth warchod bioddiogelwch Cymru ar yr un pryd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu ar y manylion technegol*

*Yn ogystal, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb â newidiadau cyfatebol, a fydd hefyd yn cael eu gwneud ar frys yn Lloegr ac yn yr Alban."*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 1(2) yn y Rheoliadau hyn yn darparu y byddant yn dod i ben ar 1 Hydref 2022. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio hyn. Mae'r Nodyn Esboniadol, fodd bynnag, yn nodi y daw'r Rheoliadau i ben ar 7 Hydref 2022.

Er y derbynnir nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau, mae'n bosibl y gall hyn greu dryswch ynghylch y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i ben.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

